# WILLIAMS, JAMES (1790-1872), clerigwr

**Enw:** James Williams
**Dyddiad geni:** 1790
**Dyddiad marw:** 1872
**Plentyn:** Louisa Mary Ramsay (née Williams)
**Rhiant:** John Williams
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awduron:** Robert Thomas Jenkins, Emyr Gwynne Jones

Ganwyd yn 1790 (bedyddiwyd 26 Gorffennaf), yn fab i John Williams (1740 - 1826), Treffos, Llansadwrn, Môn, rheithor Llanddeusant, Llangaffo, a Llanfair-yng-Nghornwy - yr oedd John Williams yn frawd i Thomas Williams (1737 - 1801) o Lanidan, a'i wraig yn un o'r Vincentiaid (gweler yr ysgrif arnynt). Aeth James Williams i Goleg Iesu, Rhydychen, yn 1807; graddiodd yn 1810; bu'n gymrawd o'i goleg, 1813-22; a chymerth ei B.D. yn 1820. Bu'n gurad Llanfair-pwll a Phenmynydd, 1814-21; yna, pan ymddeolodd ei dad o'i dri phlwyf (1821), dilynodd ef ynddynt. Codwyd ef yn ganghellor eglwys gadeiriol Bangor yn 1851. Bu farw 24 Mawrth 1872, a chladdwyd yn Llanfair-yng-Nghornwy. Clerigwr bonheddig, da iawn ei fyd, o'r hen stamp, oedd James Williams, ustus heddwch, a gwr hynod fawr ei barch. Ymddiddorai mewn amaethyddiaeth, a chyfrannodd nodiadau i lyfr John Owen (1808 - 1876), Tynllwyn, ar fagu anifeiliaid (1869). Yr oedd yn eisteddfodwr selog a haelionus, ac anaml iawn y methai fod yn yr eisteddfod genedlaethol. Haedda'i gofio hefyd am agor y ffordd i (Syr) John Rhys - ysgolfeistr ym Môn ar y pryd - i fynd i Rydychen. Merch iddo (Louisa Mary) oedd gwraig Syr Andrew Crombie Ramsay (1814 - 1891) y daearegwr (gweler *D.N.B.*) a fathodd yr enw 'Cambrian' ar un o haenau'r ddaear; yn Llansadwrn y claddwyd Ramsay.

Brawd iddo oedd

### JOHN WILLIAMS (1784 - 1876),

Aeth i Eton a Choleg Iesu, Rhydychen (ni raddiodd); galwyd ef i'r Bar o Lincoln's Inn yn 1809; bu'n 'receiver-general' dros Ogledd Cymru, ac am faith flynyddoedd yn gadeirydd brawdlys chwarterol Môn.

Wyr iddo ef oedd

### Syr RALPH CHAMPNEYS WILLIAMS (1848 - 1927),

Ganed yn rheithordy Aber, 9 Mawrth 1848, yn fab i'r Parch. Thomas Norris Williams, ac a aeth i ysgol Rossall. Cafodd hwn yrfa hynod ramantus. O 1884 hyd 1906 bu'n dal swyddi cyfrifol yn Bechuanaland, De Affrica, Gibraltar, a Barbados. Yna (1906) bu'n llywodraethwr y Windward Islands, ac o 1909 hyd 1913 yn llywodraethwr Newfoundland. Cyhoeddodd yn 1913 hunangofiant diddorol, *How I became a Governor*. Bu farw 22 Mehefin 1927.

## Awduron

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

**Emyr Gwynne Jones**, (1911 - 1972)

## Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 68

Foster, *Alumni Oxonienses*

*Llawysgrif Bangor yng Nghloleg y Gogledd, Bangor* 6457 yng Nghloleg y Gogledd

R. Hughes, *Enwogion Môn, 1850–1912* (Dolgellau 1913)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q6145638

Wikidata: Q7287329

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu